**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**199 - Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 15 Hydref 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 4 Tachwedd 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 27 Hydref 2020 |

**Y cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraffau 1 a 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, a chan adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 a pharagraff 12 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chemegion ac organeddau a addaswyd yn enetig.

Mae Cyfundrefn Gemegion y DU yn cynnwys materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl, gan ei bod wedi cael ei dylunio i warchod iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd (sydd wedi'u datganoli yng Nghymru) yn ogystal ag iechyd a diogelwch gweithwyr (mater a gedwir yn ôl yng

Nghymru). Mae rheoli mewnforion ac allforion hefyd yn fater a gedwir yn ôl ar gyfer cemegion, ar wahân i wrteithiau a phlaladdwyr, fel y mae profion ar anifeiliaid at ddibenion gwyddonol.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/720) i sicrhau bod deddfwriaeth y DU ar gemegion ac organeddau a addaswyd yn enetig yn parhau i weithio'n effeithiol ar y cyd â'r Cytundeb Ymadael ar ddiwedd y cyfnod pontio.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 30 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaeth gwneud Rheoliad i'r Ysgrifennydd Gwladol y mae ei harfer yn ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r swyddogaeth yn swyddogaeth un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Senedd yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaeth hon, gallai hynny ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau adrodd technegol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn Awdurdodau datganoledig Cymru at ddibenion Atodiad 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, mae'n bosibl y bydd hon yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Senedd i ddeddfu mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny yn y dyfodol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru yn ddilyffethair.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.